Cyfrif Refeniw Tai	32	3,779	8	257	1	2,122	1,121	(12,472)	(5,152)
Cynnal a Chadw Adeiladau									
Cynnal a Chadw Adeiladau	1,410	159	391	3,077	0	0	0	(5,238)	(201)
Symiau sydd heb eu hadrodd i Reolwyr:	83,894	14,092	4,868	37,805	38,444	26,954	2,899	(102,927)	106,029
Addasiadau Pensiwn									(1,892)
Ailbrisiant o Asedau Sefydlog									1,376
Dibrisiant									10,579
Incwm Rhent									368
Buddiannau Gweithwyr									366
Gwariant Refeniw wedi ei gyllido ô gyfalaf dan statud									3,811
Diffyg ar Weithrediadau Parhaus									120,637
Gwariant Gweithredol Arall									19,660
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi									4,392
Incwm Treth a Grantiau Amhenodol									(136,212)
Diffyg ar ddarparu gwasanaeth									8,477

Symiau yr Adroddwyd Arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau 2010/11

Adran	Gweithwyr	Eiddo	Cludiant	Cyflenwadau a Gwasanaethau	Taliadau Trydydd Parti	Taliadau a drosglwyddir	Costau cefnogaeth	Incwm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Addysg a Hamdden									
Gwasanaeth Addysg	41,577	4,390	2,555	8,473	2,029	30	790	(14,872)	44,972
Hyfforddiant Môn	472	15	19	17	67	0	0	(633)	(43)
Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth	2,280	572	65	1,268	56	0	9	(2,393)	1,857
Gwasanaethau Hamdden a Chymunedau	2,070	556	56	592	56	0	0	(1,474)	1,856
Cyllid									
Gwasanaeth Cyllid	2,338	2	18	832	0	0	0	(919)	2,271
Gwasanaeth Technoleg, a Cyfathrebu Gwybodaeth	808	20	14	686	0	0	0	(224)	1,304
Gwasanaeth Archwilio	149	0	0	71	0	0	0	0	220
Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol									
Gwasanaeth Cynllunio, Amgylcheddol, Gwastraff a Phrifyrdd	7,082	1,084	403	11,440	7,672	867	565	(10,253)	18,860
Gwasanaeth Eiddo	2,796	1,490	99	683	1	0	73	(3,273)	1,869
Gwasanaethau Tai a Chymdeithasol									
Gwasanaeth Tai	1,861	39	97	1,510	0	0	625	(3,429)	703
Gwasanaethau Cymdeithasol	7,220	225	500	2,598	23,997	0	0	(11,744)	22,796
Gwasanaethau Gofal Môn	8,598	512	785	1,234	(98)	0	0	(10,259)	772
Rheolwr Gyfarwyddwr									
Gwasanaethau Polisi, Corfforaethol, Pwyllgorau a Chyfreithiol	4,012	55	29	1,636	0	0	14	(616)	5,130
Gwasanaeth Datblygu Economaidd	1,401	44	38	1,677	0	0	53	(2,259)	954

Adran	Gweithwyr	Eiddo	Cludiant	Cyflenwadau a Gwasanaethau	Taliadau Trydydd Parti	Taliadau a drosglwyddir	Costau cefnogaeth	Incwm	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cyllidebau a drinnir fel Risgiau									
Corfforaethol									
Addysg all-sirol	0	0	0	0	1,409	0	0	(379)	1,030
Gwasanaethau Cymdeithasol all-sirol	0	0	13	114	1,827	0	0	(181)	1,773
Budd-daliadau	0	0	0	0	0	21,306	0	(21,424)	(118)
Digartrefedd	0	152	1	35	0	1,074	128	(1,407)	(17)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	555	320	68	1,829	0	0	0	(1,593)	1,179
Rhyddhad Treth	0	0	0	0	0	0	0	37	37
Cyfrif Refeniw Tai									
Cyfrif Refeniw Tai	31	4,930	6	113	1	2,140	1,202	(11,891)	(3,468)
Cynnal a Chadw Adeiladau									
Cynnal a Chadw Adeiladau	1,427	67	485	3,353	0	0	137	(5,655)	(186)
Is-gyfanswm	84,677	14,473	5,251	38,161	37,017	25,417	3,596	(104,841)	103,751
Symiau sydd heb eu hadrodd i Reolwyr									
Addasiadau Pensiwn									(23,010)
Ailbrisiadau o Asedau Sefydlog									578
Dibrisiad									9,742
Incwm Rhent									349
Grantiau Llywodraeth Gohiriedig									27
Buddiannau Gweithwyr									(268)
Gwariant Refeniw wedi ei gyllido ô gyfalaf dan statud									3,744
Diffyg ar Weithrediadau Parhaus									94,913
Gwariant Gweithredol Arall (Nodyn 9)									21,519
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (Nodyn 10)									7,098
Incwm Treth a Grantiau Amhenodol (Nodyn 11)									(138,484)
Gwarged ar Ddarparu Gwasanaethau									(14,954)

NODYN 29 – GWEITHREDIADAU CAFFAELEDIG AC A DERFYNWYD

Ni fu unrhyw weithrediadau caffaeledig na terfynwyd perthnasol yn 2011/12 sydd angen adrodd yn ychwanegol neu ar wahân arnynt yn y cyfrifon.

NODYN 30 – GWEITHREDIADAU MASNACHU SYLWEDDOL

Gweithrediadau masnachu yw'r rheini mae'r Cyngor yn cynnal mewn amgylchedd cystadleuol. Y gweithgareddau a ddaeth o dan y pennawd yma yn 2011/12 a 2010/11 yw:

	2011/12 Gwariant £000	2011/12 Incwm £000	2011/12 (Incwm)/ Gwariant Net £000	2010/11 Gwariant £000	2010/11 Incwm £000	2010/11 (Incwm)/ Gwariant Net £000
Gwasanaethau Gofal Môn	10,797	(9,547)	1,250	11,520	(10,319)	1,201
Hyfforddiant Môn Training	0	0	0	640	(633)	7
Cyfanswm	10,797	(9,547)	1,250	12,160	(10,952)	1,208

Cafodd Hyfforddiant Môn ei drosglwyddo i Coleg Menai ar 1af Fedi 2010.

Yn y gorffennol, adroddodd yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau fel Gweithrediad Masnachu. Adolygwyd gweithgareddau'r Uned yn 2011/12 gyda'r canlyniad nad oedd bellach yn cael ei ystyried fel yn cwrdd â'r diffiniadau'n llawn. Ar gyfer pwrpasau cymharu, petai Cynnal a Chadw Adeiladau'n parhau i gael eu cynnwys, byddai'r tabl fel a ganlyn:

	2011/12 Gwariant £000	2011/12 Incwm £000	2011/12 (Incwm)/ Gwariant Net £000	2010/11 Gwariant £000	2010/11 Incwm £000	2010/11 (Incwm)/ Gwariant Net £000
Cynnal a Chadw Adeiladau	5,137	(5,238)	(101)	5,511	(5,655)	(144)
Gwasanaethau Gofal Môn	10,797	(9,547)	1,250	11,520	(10,319)	1,201
Hyfforddiant Môn Training	0	0	0	640	(633)	7
Cyfanswm	15,934	(14,785)	1,149	17,671	(16,607)	1,064

Natur y Gweithrediadau

Cynnal a Chadw Adeiladau

Mae'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau yn gwneud atgyweiriadau a chynnal a chadw dydd i ddydd i Stoc Dai'r Cyngor, adeiladau cyhoeddus a'r holl eiddo arall ym mherchnogaeth y Cyngor neu dan brydles iddo. Nod yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau yw darparu gwasanaeth ardderchog i denantiaid, drwy gynnal eiddo i safon dderbyniol, tra'n cynhyrchu gwarged digonol i ail buddsoddi mewn asedau gweithredol yn Uned.

Gwasanaethau Gofal Môn

Gwasanaethau Gofal Môn yw'r darparwr mewnol, o fewn yr Adran Gwasanaethau Tai a Chymdeithasol, o'r gwasanaethau canlynol: Gofal Cartref, Gofal Preswyl a Dydd, Gweithdai Cyflogaeth Warchodol, Tai Gwarchod a Phryd ar Glud.

Nod ariannol Gwasanaethau Gofal Môn yw adennill costau. Mae'n cael ei drin fel rhan o weithgareddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac nid oes ganddo gronfa wrth gefn neilltuol ei hun.

Hyfforddiant Môn Training

Cyn ei drosglwyddo i Coleg Menai, roedd Hyfforddiant Môn yn darparu Hyfforddiant Ieuenctid ac Oedolion ac, yn ogystal, yn rhedeg cyrsiau Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch a Hylendid Bwyd a Thechnoleg.

NODYN 31 - LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £619,043 (£867,816 yn 2010/11) yn ymwneud â lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Ers 2006/07, mae'r Aelodau yn gymwys i ymuno â'r cynllun pensiwn, ac mae'r ffigwr lwfansau yn cynnwys £45,304 (£60,732 yn 2010/11) ar gyfer cyfraniad y Cyngor i'r gronfa.

	2011/12 £	2010/11 £
Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig (LCA)	519,876	719,467
Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd	11,061	12,736
Costau pensiwn	45,304	60,732
Costau Yswiriant Cenedlaethol	30,957	58,185
Costau teithio	11,137	14,885
Cynhaliaeth	166	785
Amrywiol	542	1,026
Cyfanswm	619,043	867,816

Yn dilyn apwyntiad y Comisiynwyr i gyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor ym Mawrth 2011, cyhoeddodd y Panel Annibynnol Cymru ar Cydnabyddiaeth Ariannol Adroddiad Ychwanegol yn penodi'r lwfansau i'w dalu i aelodau'r Cyngor yn ystod 2011/12. Canlyniad y penodiad yma oedd na fyddai swyddi'r Arweinydd, Is-Arweinydd, aelod Pwyllgor Gwaith nac arweinydd unrhyw grŵp arall bellach yn darparu hawl i Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig; ac i gyfyngu lefel y Lwfans Sylfaenol a'r Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig sy'n parhau'n daladwy.

Apwyntir a thelir y Comisiynwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cyfrannu drwy dynnu oddi wrth y Grant Cytundeb Canlyniad a fyddai, fel arall, yn daladwy gan Llywodraeth Cymru i'r Cyngor yn seiliedig ar berfformiad yn cyflwyno ei Cytundeb Canlyniad.

NODYN 32 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol ofynnol ar gyfer uwch weithwyr y mae eu cyflogau blynyddol yn llai na £150,000, ond yn cyfateb i neu'n fwy na £60,000.

		Cyflog, ffioedd a Lwfansau £	Lwfansau treuliau £	lawndal am golli swydd £	Cyfraniad Pensiwn £	Cyfanswm £
Prif Weithredwr (Dechreuodd 01/05/2011)	2011/12	101,737	2,051	0	23,287	127,075
	2010/11	0	0	0	0	0
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) (Daeth yn Brif Weithredwr ar 01/05/2011)	2011/12	0	0	0	0	0
	2010/11	77,758	3,430	0	16,329	97,517
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylcheddol a Thechnegol)	2011/12	78,426	2,015	0	16,862	97,303
	2010/11	78,426	2,246	0	16,470	97,142
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)	2011/12	75,258	2,194	0	16,180	93,632
	2010/11	75,302	2,727	0	15,804	93,833
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)	2011/12	82,721	1,621	79,126	13,092	176,560
	2010/11	73,545	1,778	0	15,444	90,767
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro	2011/12	63,727	338	0	13,701	77,766
	2010/11	63,972	78	0	13,434	77,484
Cyfanswm	2011/12	401,869	8,219	79,126	83,122	572,336
Cyfanswm	2010/11	369,003	10,259	0	77,481	456,743

Roedd gan Swyddog Adran 151 Dros Dro'r Cyngor, sydd wedi ei apwyntio o Medi 2011, gytundeb cyflogaeth fel Swyddog Adran 151 ac mae hefyd wedi ei secondio tri diwrnod yr wythnos o awdurdod arall. Y gost i'r Cyngor am y cyflog a'r gorbenion oedd £26k gyda chostau o £7k, ynghyd a £36k a dalwyd i'r awdurdod arall ynglyn â'r secondiad. Amcangyfrifir fod y cyflog blynyddol ar sail llawn amser yn oddeutu £100k.

Amcangyfrifir fod cydnabyddiaeth ariannol gymharol i'r golofn cyfanswm cost yn y tabl uchod yn £110k.

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Weithwyr

Roedd y nifer o weithwyr yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd yn 2011/12, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, yn £60,000 neu fwy yn:

	Yn cynnwys Tâl Diswyddo	Ailddatganiad: Yn cynnwys Tâl Diswyddo	Ac eithrio Tâl Diswyddo	Ailddatganiad: Ac eithrio Tâl Diswyddo
	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11
	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr	Nifer o weithwyr
£60,001 i £65,000	1	1	1	1
£65,001 i £75,000	0	0	0	0
£75,001 i £80,000	1	3	1	3
£80,001 i £85,000	1	1	2	1
£85,001 i £100,000	0	0	0	0
£100,001 i £105,000	1	0	1	0
£105,001 i £160,000	0	0	0	0
£160,001 i £165,000	1	0	0	0
£165,001 i £180,000	0	0	0	0
Cyfanswm	5	5	5	5

Yn y tabl cyfatebol yn Natganiad Cyfrifon 2010/11, cynhwyswyd nifer o Benaethiaid yn y ffigyrau. Ni ddylid eu cynnwys yn ôl yr arweiniad cyfredol, ac mae ffigyrau 2010/11 wedi eu hyddasu yn unol â hyn.

Pecynnau Ymadael

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol ac ymadawiadau eraill wedi ei nodi yn y tabl isod:

Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost pecynnau ymadael fesul band cost	
	2010/11	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11	2011/12	2010/11 £	2011/12 £
£0 - £20,000	0	0	9	27	9	27	62,478	217,142
£20,001 - £40,000	0	0	1	9	1	9	27,451	279,495
£40,001 - £60,000	0	0	0	12	0	12	0	552,967
£60,001 - £80,000	0	0	0	1	0	1	0	69,754
£80,001 - £100,000	0	0	0	5	0	5	0	448,296
£100,000 - £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	0	10	54	10	54	89,929	1,567,654

NODYN 33 – FFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth:

	2011/12 £000	2010/11 £000
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn	155	199
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol	174	200
Ffioedd yn daladwy i PricewaterhouseCoopers LLP ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	145	128
Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau arall (Menter Twyll Genedlaethol)	0	4
Cyfanswm	474	531

Mae'r ffigyrau ar gyfer 2010/11 yn cynnwys swm ychwanegol o £34k yn ddyledus i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag Arolygiad Arbennig o'r Cyngor yn Chwefror 2011.

NODYN 34 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi rhoi'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol mewn credyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2011/12:

	Nodyn	2011/12 £000	2010/11 £000
Wedi'u credydu i Incwm Treth a Grantiau Amhenodol			
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgau)	11	77,112	75,037
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	11	7,359	9,892
Grant - Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau)	11	2,623	2,640
Arall (Grantiau'r Llywodraeth heb eu hamgau)	11	551	551
		87,645	88,120
Wedi'u credydu i Wasanaethau			
Grantiau:			
Budd-dal dreth Gyngor a roddwyd		5,032	4,854
Grant ôl 16 (Addysg)		3,272	3,343
Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg)		2,133	1,840
Grant Taliad Teithio Consesiwn		687	654
Cymhorthdal budd-dâl		17,890	16,385
Grant Cefnogi Pobl (SPG a SPRG)		1,992	2,071
Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		1,636	1,489
		32,642	30,636
Grantiau eraill:			
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		0	3
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig		664	670
Gwasanaethau Plant Ac Addysg		4,656	5,883
Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant		2,037	1,979
Gwasanaethau Tai eraill		900	900
Grantiau Gofal Cymdeithasol Oedolion		1,344	1,801
Cynllunio a Datblygu		2,033	2,583
Gwasanaethau Amgylcheddol		166	99
Craidd Democrataidd a Chorfforaethol		743	845
Gweithrediadau Masnachu		479	183
		13,022	14,946
Cyfraniadau:		6,564	6,635
Cyfanswm		139,873	140,337

Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

	2011/12 £000	2010/11 £000
Balans agoriadol	502	667
Ychwanegu: Grantiau Cyfalaf newydd a dderbyniwyd ymlaen llaw (ni chwrddwyd ag amod defnydd)	8,768	12,327
Grantiau Cyfalaf wedi'i Had-dalu	(17)	0
Llai: symiau a ryddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi cwrdd â'r amodau)	(9,109)	(12,492)
Balans Cau	144	502

NODYN 35 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol. Yn ystod 2011/12, talwyd cyfanswm o £3,242,073 mewn grantiau ar gyfer prynu gwasanaethau gan y cyrff hyn (£5,651,058 yn 2010/11).

Mae'r Cyngor yn aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thalwyd tanysgrifiad o £70,603 iddi yn 2011/12 (£74,186 yn 2010/11).

Mae Aelodau wedi datgan diddordebau mewn contractau, neu mewn sefydliadau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor, yn y Gofrestr Statudol o Ddiddordebau Aelodau. Talwyd cyfanswm o £312,722 gan y Cyngor yn 2011/12 mewn perthynas â'r diddordebau hyn (£700,634 yn 2010/11). Caiff rhai taliadau budd-dal tai eu cyflwyno'n uniongyrchol i landlordiaid yr eiddo; yn 2011/12 talwyd £14,414 yn uniongyrchol i dri Aelod o'r Cyngor (a'u partïon cysylltiedig) fel hyn (£9,463 yn uniongyrchol i dri Aelod o'r Cyngor yn 2010/11).

Llywodraeth Cymru sy'n gosod y blaenoriaethau cenedlaethol, y cyd-destun strategol a lefel gyffredinol cyllideb i wasanaethau. Y Cynghorau sydd â'r cyfrifoldeb i gyflwyno'r gwasanaethau yma ar lefel lleol o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Golyga'r berthynas yma fod Cynulliad Cymru yn ymarfer dylanwad arwyddocaol dros yr Awdurdod. Ceir yn nodiadau 11, 34 a 45 gwybodaeth am y berthynas gyllidebol sy'n bodoli rhwng y Cyngor a Chynulliad Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader, drwy reolaeth cyffredinol gan Llywodraeth ganol, yn barti cysylltiedig i'r Awdurdod. Cyfanswm taliadau i BIPBC gan y Cyngor am 2011/12 oedd £1.353m, gyda £0.268m yn ddyledus i'r parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm y derbyniadau i'r Cyngor gan BIPBC oedd £2.494m, gyda £1.343m yn ddyledus gan ein parti cysylltiedig ar ddiwedd y flwyddyn.

DIDDORDEBAU MEWN CWMNIAU

Mae gan y Cyngor ddiddordeb o 50% mewn dau gwmni, ym mhob achos yr aelod arall yw Cyngor Gwynedd ac nid oes gan CSYM ddiddordeb rheoli, felly, nid oes angen cyfrifon grŵp:-

Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf

Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yw Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf a sefydlwyd ar y cyd gan ragflaenwyr Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn 1994. Roedd y cwmni yn rhedeg dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd y rhan fwyaf o weithgaredd y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol.

Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2007/08 ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol. Yn Ionawr 2008, trosglwyddwyd yr asedau a'r ymrwymadau gweithredol perthnasol a'r staff i'r Cyngor, ynghyd â swm balans mewn arian parod. Mae'r buddsoddiad wedi cael ei ailbriso bob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o arian y cyfranddalwyr wedi cael ei dalu'n ôl i'r ddau gyngor. Nid yw'r budd gweddilliol yn y cwmni ar 31 Mawrth 2012 yn faterol i gyfrifon y Cyngor.

Cwmni Cynnal Cyf

Sefydlwyd y cwmni hwn adeg ad-drefnu llywodraeth leol ar y cyd rhwng Cyngorau Ynys Môn a Gwynedd. Mae'n darparu gwasanaethau cefnogaeth addysg dan gytundeb i ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau addysg leol a gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Dim ond i hyrwyddo ei amcanion y mae modd defnyddio incwm y cwmni. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt. Gwnaed taliadau gan y Cyngor, a chan gynnwys ei ysgolion, yn 2011/12 o £1.789m (£2.021m yn 2010/11).

Mae cyfrifon y cwmni am 2010/11 yn dangos incwm net o £0.20m (£0.29m yn 2009/10). Trosiant y cwmni am 2010/11 oedd £5.69m (£6.26m yn 2009/10). Dengys cyfrifon cyhoeddus y Cwmni asedau net o £0.36m (rhwymedigaethau net £4.99m yn 2009/10) ar 31 Mawrth 2011. Roedd y cynnydd mewn gwerth net negyddol yn ystod 2010/11 i'w briodoli i ostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn yn ystod y flwyddyn o £5.237m.

Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf, Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd. Mae adroddiad yr archwilyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2011 yn ddiamod.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmnïau fel a ganlyn:-

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru - WJEC CBAC Cyf

Mae'r Cyngor yn aelod o WJEC CBAC Cyfyngedig, cwmni elusennol y mae'r 22 awdurdod unedol Cymru yn aelodau ohono. Ei swyddogaeth yw darparu gwasanaethau arholiad a datblygu a hyrwyddo gwasanaethau addysg a diwylliant eraill. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae rhwymedigaeth y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2011/12 talodd y Cyngor £0.40m (£0.34m yn 2010/11) am brynu gwasanaethau gan y cwmni.

Mae cyfrifon y Cwmni am 2010/11 yn dangos symudiad net positif mewn cronfeydd o £4.27m (symudiad net negyddol mewn cronfeydd o £4.33m yn 2009/10). Trosiant y cwmni am 2010/11 oedd £35.10m (£36.25m yn 2009/10) a'i asedau net yn £15.50m (£11.22m ar 30 Medi 2010) ar 30 Medi 2011.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o WJEC CBAC Cyfyngedig, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX. Mae adroddiad yr archwiliwr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 30 Medi 2011 yn ddiamod.

Menter Môn Cyfyngedig

Mae'r Cyngor yn aelod o Menter Môn Cyf, ac yn un o dri aelod ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cwmni yn hyrwyddo tyfiant economaidd ym Môn wledig. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, heb gyfalaf cyfranddaliadau, ac mae ymrwymiad y Cyngor yn gyfyngedig i un bunt.

Yn ystod 2011/12 talodd y Cyngor £1.817m i'r cwmni i gefnogi ei weithgareddau (£0.860m yn 2010/11).

Cyngor SirYnys Môn

Mae cyfrifon y Cwmni am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Rhagfyr 2010 yn dangos incwm net ar ôl treth o £205,039 (incwm net o £99,456 yn 2009). Trosiant y Cwmni am 2010 oedd £2.52m (£1.80m yn 2009) a'i asedau net yn £1.18m (£0.17m yn 2009) ar 31 Rhagfyr 2010.

Gellir cael copïau o gyfrifon y cwmni o Menter Môn, Llys Goferydd, Stâd Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn. Mae adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon am y flwyddyn ariannol i 31 Rhagfyr 2011 yn ddiamod.

Ysgol Sefydledig Caergeiliog

Mae balansau ar gyfer asedau a rhwymedigaethau cyfredol dan reolaeth Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yma, ac felly dim ond eu hasedau cyfredol net y mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y'u nodir yn y Fantolen hon, yn eu cynrychioli. Mae gan yr ysgol hefyd asedau nad ydynt yn gyfredol o £678,347 (£715,351 ar 31 Mawrth 2011) a nodir ar Fantolen yr ysgol, ar sail cyfuniad o brisant a chost hanesyddol, lai dibrisiant. Mae'r asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac ni chânt eu cyfuno yn y Fantolen hon.

CRONFEYDD YMDDIRIEDOL

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr i nifer o gronfeydd ymddiriedol. Nid asedau yn perthyn i'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac o'r herwydd ni chânt eu cynnwys ym Mantolen Gyfun y Cyngor. Mae eu cyfrifon ar gael gan yr Adran Gyllid. Yn ychwanegol at gymynroddion i bethau megis gwobrau mewn ysgolion, a chysuron a gwelliannau yn sefydliadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gronfeydd Ymddiriedol fel a ganlyn:-

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif 1000818)

Y Cyngor yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, sef ymddiriedolaeth a sefydlwyd i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gydag arian a gafwyd gan Shell (UK) Limited pryd y daeth gwaith y cwmni i ben yn y lanfa olew oedd ganddo ym Môn. Amcanion yr Ymddiriedolaeth Elusennol yw darparu cyfleusterau er lles cyffredinol cyhoeddus pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Mae'n gwneud hyn trwy gyfrannu tuag at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Gweinyddir y gronfa gan y Cyngor yn ddi-dâl. Yn 2011/12 derbyniodd y Cyngor £250k (£270k yn 2010/11) tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn.

Cronfa'r Degwm

Ar hyn o bryd weinyddir buddsoddiadau'r gronfa gan Gyngor Gwynedd ar ran yr awdurdodau a olynodd hen Gyngor Sir Gwynedd er bod cynlluniau i'w trosglwyddo i'r Cyngor hwn. Yn y cynllun i weinyddu'r gronfa dywedir y bydd raid defnyddio'r incwm at ddibenion elusennol - rhai addysgol, adloniadol a chymdeithasol - yn ôl dewis llwyr y Cyngor.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae 75% o'r incwm net o Stâd Elusennol David Hughes yn ffurfio rhan o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - sef Cronfa y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr iddi. Defnyddir yr incwm i ddibenion addysgol penodol. Telir y 25% arall i "Elusen David Hughes er Lles y Tlodion", elusen nad yw'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor.

Cyngor SirYnys Môn

Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r stad ac yn 2011/12 derbyniodd ffi o £7k am y gwasanaeth.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd balansau'r Cronfeydd Ymddiriedol (yn ôl gwerth yr asedau ar y farchnad) yn:-

	2011/12 Incwm £000	2011/12 Gwariant £000	2011/12 Asedau Net £000	2010/11 Asedau Net £000
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (*)	779	1,078	16,017	16,316
Cronfa'r Degwm (**)	21	35	518	532
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (*)	65	59	1,845	1,839

(*) Ffigyrau 2010/11 wedi eu hailddatgan i adlewyrchu cyfrifon terfynol.

(**) Cyfran Ynys Môn yn unig

Cyfanswm gwerth y cronfeydd eraill ar 31 Mawrth 2012, gan gynnwys buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad yw £236k (£238k ar 31 Mawrth 2011).

NODYN 36 - GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido. Pan fo gwariant cyfalaf i'w gyllido mewn blynyddoedd i ddod trwy daliadau i'r refeniw fel bo asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR), mesur o'r gwariant cyfalaf yr eir iddo'n hanesyddol sydd eto i'w gyllido.

Mae'r symudiad net yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos y newid yn yr angen gwaelodol i'r Cyngor fenthyca yn ystod y flwyddyn i ariannu buddsoddiad cyfalaf nad yw wedi ei ariannu'n syth o adnoddau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf ac ariannu uniongyrchol o refeniw.

2011/12 £000		2010/11 £000
97,716	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol	99,581
	Cyfalaf a fuddsoddiwyd yn y Flwyddyn	
17,529	Eiddo, Offer a Chyfarpar	20,314
149	Eiddo Buddsoddiad	53
19	Asedau Anniriaethol	0
111	Eraill	
<u>3,811</u>	Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	<u>3,744</u>
21,619		24,111
	Ffynhonnell Cyllid	
(944)	Derbyniadau Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn	(4,528)
(10,092)	Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth	(12,492)
(3,646)	Darpariaethau Refeniw	(4,703)
<u>(3,993)</u>	Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu	<u>(4,253)</u>
(18,675)		(25,976)
2,944	(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	(1,864)
100,660	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau	97,716
	Esboniad o symudiad yn y Flwyddyn	
3,579	Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca a gefnogir gan gymorth Llywodraeth	1,000
3,358	Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca na chefnogir gan gymorth Llywodraeth	1,389
(3,993)	Isafswm Darpariaeth Refeniw a Gosod o'r Neilltu Gwirfoddol	(4,253)
2,944	(Gostyngiad) / Cynnydd Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	(1,864)

NODYN 37 – PRYDLESAU

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu 127 eiddo ar 31 Mawrth 2012 ar gyfer ei weithgaredd digartrefedd (171 eiddo ar 31 Mawrth 2011) ac mae cyfanswm rhenti'r prydlesau am y flwyddyn yn £739k (£941k yn 2010/11). Mae gan yr eiddo yma gymalau toriad ar 12 mis. Roedd hyn oherwydd polisi bwriadol i ddychwelyd eiddo gwag wedi eu prydlesu yn ôl i'w perchenogion yn hytrach na thalu rhent ar eiddo gwag. Dychwelwyd y rhan fwyaf yn ystod y chwarter diwethaf o'r flwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn dal rhai peiriannau ac offer dan brydlesau gweithredol neu dan gytundebau rhent a £0.1m yw'r gost i refeniw am yr eitemau hyn yn 2011/12 (2010/11 £0.1m).

NODYN 38 – COLLEDION AMHARIAD

Mae paragraff 4.7.4.2(1) o'r Côd yn gwneud datgeliad yn ofynnol yn ôl dosbarth yr asedau o'r symiau ar gyfer colledion amhariad a gwrthdroadau amhariad a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Cysonir unrhyw ddatgeliadau o'r fath yn Nodyn 12, gan gysoni'r symudiad dros y flwyddyn yn y balansau Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol. Nid oedd unrhyw golledion amhariad yn unai 2011/12 nac yn 2010/11.

NODYN 39 - CYNLLUN PENSIWN SY'N CAEL EI DRIN FEL CYNLLUN CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2011/12, talodd y Cyngor Sir £3.106m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 14.1% o dâl pensiynadwy athrawon. Roedd y ffigyrau am 2010/11 yn £3.134m a 14.1%. Yn ychwanegol, 'roedd taliadau yn ymwneud ag ychwanegiadau ar gyfer ymddeol yn gynnwys ac ati a wnaed ar sail talu-wrth-fynd yn £0.595m (£0.577m yn 2010/11). Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig, a manylir arnynt yn Nodyn 40.

NODYN 40 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Buddiannau Ymddeoliad

Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Awdurdod Leol

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau, sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cyfranogi yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Trafodion yn ymwneud â buddiannau ymddeoliad – Taliadau CIES

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yng Nghost Gwasanaethau ar Weithrediadau Parhaus a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau.

Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac felly, mae gwir gost buddiannau ymddeoliad yn cael eu gwrth-droi allan o'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y CIES a'r llinell addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:

	2011/12 £000	2010/11 £000
Cost net y gwasanaethau:		
Cost Gwasanaeth Gyfredol	6,060	6,994
Cost /(enilliad) Gwasanaeth y Gorffennol	93	(23,073)
Enillion a Cholledion ar setliadau neu gwtogiadau	326	97
Gwariant gweithredu net:		
Cost llog	11,664	16,195
Dychweliad disgwylidig ar asedau cynllun	(11,484)	(12,719)
Tâl net i'r CIES	6,659	(12,506)
Addasiadau rhwng sail gyfrifo a sail gyllido dan y Rheoliadau:		
Gwrthdrôad taliadau net ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol ag IAS19	(6,659)	12,506
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn:		
Cyfraniadau cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	8,371	8,157
Taliad net i Grynodedb Cronfa'r Cyngor	1,712	20,663

Mae'r ffigyrau cost gwasanaeth yn cynnwys lwfans am gostau gweinyddu o 0.5% o gyflog.

Yn ychwanegol at yr enillion a cholledion cydnabyddedig a gynhwysir yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, cynhwyswyd colledion actiwariaid o £18.887m (enillion o £68.656m yn 2010/11) mewn incwm a gwariant cynhwysfawr arall yn y CIES. Mae swm cronol enillion a cholledion actiwariaid a gydnabyddir mewn incwm a gwariant cynhwysfawr arall hyd at 31 Mawrth 2012 yn golled o £51.436m (£24.095m o golled yn 2010/11).

Asedau a Rhwymedigaethau yng nghyswllt Buddiannau Ymddeoliad

Cysoniad Gwerth Cyfredol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	2011/12 £000	2010/11 £000
Balans ar 1 Ebrill	212,133	311,535
Cost Gwasanaeth Gyfredol	6,060	6,994
Cost llog	11,664	16,195
Cyfraniadau gan aelodau	2,070	2,119
(Enillion)/colledion actiwariaid	7,287	(93,825)
Costau /(enillion) Gwasanaeth y Gorffennol	93	(23,073)
Colledion ar gwtogiadau	326	97
Rhwymedigaethau a dybir mewn cyfuniad busnes		
Buddiannau heb eu hariannu yr amcangyfrifir a dalwyd	(1,052)	(1,018)
Buddiannau yr amcangyfrifir a dalwyd	(7,610)	(6,891)
Balans ar 31 Mawrth	230,971	212,133

Cysoniad gwerth cyfredol asedau'r cynllun:

	2011/12 £000	2010/11 £000
Balans ar 1 Ebrill	165,561	175,644
Dychweliad disgwylidig ar asedau	11,484	12,719
Cyfraniadau gan aelodau	2,070	2,119
Cyfraniadau gan y cyflogwr	7,319	7,139
Cyfraniadau yng nghyswllt buddiannau heb eu hariannu (Colledion)/enillion actiwariaid	1,052 (11,600)	1,018 (25,169)
Rhwymedigaethau a dybir mewn cyfuniad busnes		
Buddiannau heb eu hariannu a dalwyd	(1,052)	(1,018)
Buddiannau a dalwyd	(7,610)	(6,890)
Balans ar 31 Mawrth	167,224	165,562

Mae'r dychweliad disgwylidig ar asedau cynllun wedi'i seilio ar y dychweliad buddsoddiad disgwylidig tymor hir i'r dyfodol ar gyfer bob dosbarth ased fel ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Roedd dychweliad gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn yn enillion o £98k (colled o £14.319m yn 2010/11).

Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

	31/03/12 £000	31/03/11 £000
Buddsoddiadau Ecwiti	130,436	125,828
Bondiau	21,739	21,523
Eiddo	13,377	14,900
Arian parod	1,672	3,311
	167,224	165,562

Prif categorïau o asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun

Mae asedau Cynllun Pensiwn Gwynedd yn cynnwys y categorïau canlynol, yn ôl y gyfran o'r cyfanswm asedau a ddelir:

	31/03/12	31/03/11
Buddsoddiadau Ecwiti	78%	76%
Bondiau	13%	13%
Eiddo	8%	9%
Arian parod	1%	2%
	100%	100%